

newyddion Cymraeg Colegau Cymru #204 23 Tachwedd 2015

Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol

Astudiaeth Arloesol yn Rhoi Gwybodaeth am Lefelau Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Ymhlith Pobl Ifanc

Mewn gwaith ymchwil cyntaf o'i fath, mae Chwaraeon Cymru wedi rhoi llais i fyfyrwyr colegau yng Nghymru, i dynnu sylw at arferion chwaraeon a gweithgarwch corfforol pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc.

[Mwy>>>](#)

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Cymru yn Rowndiau Terfynol WorldSkills DU yn y Skills Show

Mae Cymru wedi cael llwyddiant ysgubol yn Rowndiau Terfynol WorldSkills DU eleni, a gynhaliwyd yn y Skills Show yn Birmingham yr wythnos diwethaf.

Aeth Cymru i'r Skills Show gyda'i thîm mwyaf hyd yma, a dychwelodd hanner y tim gyda gwobrau. Cafodd 39 eu cydnabod gyda medalau a dyfarniadau ar lwyfan y DU, gan gynnwys pum medal aur sydd ar eu ffordd yn ôl i golegau Cymru. Yn ogystal, cafodd cystadlaethau Sgiliau Cynhwysol eu cynnal am y tro cyntaf yn y Skills Show eleni - cystadlaethau ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu. Enillodd Cymru bum gwobr pellach yn y cystadlaethau Sgiliau Cynhwysol, gan ddod â chyfanswm y dyfarniadau i Gymru i 44.

Mae ugain o Gymru wedi cael clywed eu bod drwodd i sgwad y DU am WorldSkills, gyda'r gobraith o gael eu dewis i gystadlu i dîm y DU yn WorldSkills Abu Dhabi yn 2017.

Mae mwy o wybodaeth am yr enillwyr yn dal i ddod i mewn. Am y tro, am flas o lwyddiant Cymru, am at Goleg Gŵyr Abertawe, lle mae dau fyfyrwr wedi dod â medalau gartref. [Mwy>>>](#)

Myfyrwyr Coleg Ceredigion yn ennill gwobr am ragoriaeth

Mae myfyrwyr TGAU a Chyn-TGAU o Goleg Ceredigion wedi enill gwobr Ymgymraedd yn Ehangach Partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru am Ragoriaeth mewn cydnabyddiaeth am eu sgiliau Meddwl Beirniadol a Sgiliau Gweithio mewn Tîm.

[Mwy>>>](#)

Rowndiau terfynol Cystadleuaeth Pen-cogydd Cenedlaethol Cymru

Bydd cyn-fyfyrwr Arlwy o Goleg Ceredigion, Nathan Davies, Pen-cogydd yng Ngwesty'r Belle Vue Royal Aberystwyth, yn ymuno â chogyddion elitaidd eraill i gystadlu yn rownd derfynol cystadleuaeth Pen-cogydd Genedlaethol Cymru yn y flwyddyn newydd.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwraig tecstilau yn ennill cystadleuaeth yr Amgueddfa Genedlaethol

Wedi iddi gael ei hysbrydoli gan waith ei hen fam-gu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, mae myfyrwraig tecstilau yn Ysgol Gelf Caerfyrddin yng Ngholeg Sir Gâr wedi ennill cystadleuaeth yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol i fyfyrwyr, a oedd yn seiliedig ar y thema o glytio a thrwsio.

[Mwy>>>](#)

Oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn dathlu eu llwyddiant

Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo Cymraeg i Oedolion 2014/2015 yng Ngholeg Gwent yn ddiweddar, gyda'r cyflwynydd teledu yr enwog Nia Parry wrth y llyw.

Cynhaliwyd y seremoni ar Gampws Pont-ypŵl y coleg lle mae'r Gymraeg Gwent Canolfan Addysg Oedolion wedi'i leoli.

[Mwy>>>](#)

Gwobr Arian EEF i ddysgwr Peirianeg

Enillodd Orry Franklin, sy'n fyfyrwr Peirianeg a Chrefft Adeiladu yn Mitec, Coleg Sir Benfro, wobr yr (EEF) ar gyfer y Dysgwr Peirianeg Uwch y Flwyddyn 2015.

[Mwy>>>](#)

Dilyniant Myfyrwyr

Entrepreneur a seren sioe ar Channel 4 yn dychwelyd i'w goleg

Bu Carwyn Lloyd Jones o Timber Design Wales a leolir yn Bow Street ger Aberystwyth, sy'n gyn-fyfyriwr Coleg Ceredigion a fu'n serenni ar raglen boblogaidd Channel 4, George Clarke's Amazing Spaces, yn ol yn ei hen goleg yr wythnos diwethaf yn cyflwyno ei ddyluniadau i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau Gwaith Saer a Dylunio, Gwneud ac Adfer Dodrefn.

[Mwy>>>](#)

Cyn Lywydd Undeb Myfyrwyr yn Dechrau ei Chwmni Marchnata ei Hun

Mae un o gyn-Lywyddion Undeb Myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai, a sefydlodd ei chwmni marchnata digidol ei hun yn yr haf, wedi ei weld yn mynd o nerth i nerth mewn mater o fisoedd.

[Mwy>>>](#)

Colegau yn eu Cymunedau

Cyflogwyr lleol yn ymweld â Choleg Caerdydd a'r Fro i recriwtio'r genhedlaeth nesaf o dalent

Daeth 17 o gyflogwyr o'r diwydiant gwallt, harddwch, sba a therapïau ategol yn Ne Cymru i ymweld â myfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro mewn ymgais i recriwtio'r genhedlaeth nesaf o dalent.

[Mwy>>>](#)

Salon coleg yn dementia-gyfeillgar

Mae myfyrwyr trin gwallt Lefel 3 o Gampws Aberhonddu Grŵp o Golegau NPTC wedi dod Ffrindiau Dementia. Yn dilyn hyfforddiant gan Brecon Dementia Friendly Community, mae salon yn salon Grŵp NPTC yn Aberhonddu bellach yn salon dementia-gyfeillgar a bydd yn dod yn rhan o gymuned dementia-gyfeillgar Aberhonddu.

[Mwy>>>](#)

Cyfleoedd Dysgu

Llysgenhadon o ddysgwyr â'u bryd ar fyd busnes

Mae dysgwyr o Goleg y Cymoedd yn gobeithio defnyddio'u profiad o wirfoddoli yn SkillsCymru un o ddigwyddiadau gyrfaoedd a sgiliau mwyaf Cymru, er mwyn datblygu darpar yrfa ym myd busnes.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr yn paratoi am Gystadleuaeth Menter Trading Places

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bydd myfyrwyr o'r Coleg Merthyr Tudful yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth fenter Trading Places.

Wedi'i gydlynu drwy Ganolfan Fenter Ranbarthol De-ddwyrain Cymru, bydd y gystadleuaeth yn gweld y myfyrwyr yn cystadlu mewn cyfres o weithgareddau a thasgau busnes a menter, cyn rhedeg eu siopau dros dro eu hunain yn y

Morgan Arcade, Caerdydd.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr yn helpu i gofnodi hanes y gymuned gyda'r Ardd Fotaneg Genedlaethol

Mae myfyrwyr o Goleg Sir Gâr wedi bod yn gweithio gyda'r Ardd Fotaneg Genedlaethol a chymuned Llanarthne i gael atgofion o'r dyddiau a fu ar glawr a chadw fel rhan o brosiect £6.7 miliwn a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i adfer yr Ardd fel yr oedd yng nghyfnod y Rhaglywiaeth.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr yn cydweithio a'r heddlu ar DVD Ymgyrch Bang

Mae DVD sy'n ceisio addysgu pobl ifanc am ganlyniadau chwarae gyda tân wedi cael ei lansio.

Mae DVD "Chwarae'n Wirion" yn seiliedig ar sgetsh sydd wedi cael ei hysgrifennu a'i pherfformio gan fyfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli.

[Mwy>>>](#)

Gŵyl Shakespeare Ysgolion

Bu i fyfyrwyr actio o Grŵp o Golegau NPTC ymuno dros 35,000 o bobl ifanc o bob cwr o'r DU i berfformio cynrychiadau haniaethol o ddramâu enwog William Shakespeare fel rhan o Wyl Shakespeare Ysgolion 2015.

[Mwy>>>](#)

Myfyrwyr Teithio a Thwristiaeth yn profi'r World Travel Market

Ymwelodd 15 o fyfyrwyr Teithio a Thwristiaeth y Coleg Merthyr Tudful a'r World Travel Market yn ddiweddar i brofi amrywiaeth o fwyd, diod a thraddodiadau o bob gwlad yn y byd.

[Mwy>>>](#)
